
Taflen Wybodaeth 4 i Gleifion


Adran 5.2 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Thanks to easy on the i for the use of their image bank © LYPFT
www.easyonthei.nhs.uk



Eich enw

……



Y clinigydd cymeradwy sy'n gyfrifol am eich asesiad a'ch triniaeth yw:

……

Maent yn arbenigwr mewn iechyd meddwl.



Mae'n rhaid i chi ddod i ysbyty iechyd meddwl a elwir yn:

……

Rydych ar ward……..

Rhif Ffôn ……..

Mental Health Act 1983

Rydych wedi cael eich cadw o dan adran 5.2 y Ddeddf Iechyd Meddwl.



Dyddiad a'r amser pan cawsoch eich cadw

……




Mae'r daflen hon i'ch helpu chi i ddeall beth mae hyn yn ei olygu.

Dylai aelod o staff cymwys ddarllen drwy'r daflen hon gyda chi

Byddant yn gallu ateb eich cwestiynau.

Pam rwyf yn yr ysbyty?



Mae meddyg yn dweud eich bod yn sâl ac yn poeni am eich diogelwch oherwydd

……


Felly maent wedi'ch cadw o dan adran 5.2 y Ddeddf Iechyd Meddwl.



Golyga hyn bod yn **RHAID** i chi aros ar y ward.



Hyd yn oed os ydych yn meddwl ei fod yn anghywir eich cadw, bydd yn parhau am rwan.



Mae staff y ward eisiau eich cadw'n ddiogel a rhoi'r gefnogaeth rydych ei angen.

Mental Health Act 1983

Gallwch gael eich cadw yn yr ysbyty oherwydd eich bod wedi'ch cadw o dan adran 5.2 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.




Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gyfraith.

Am ba mor hir fyddaf yn yr ysbyty?



Gallwch gael eich cadw yn yr ysbyty am hyd at 72 awr.

Mae 72 awr yn 3 diwrnod llawn.




Os ydych yn well cyn y 3 diwrnod, gall eich meddyg eich rhyddhau.


Gall hyn olygu y gallwch fynd adref.



Os ydych yn ceisio gadael cyn bod y meddyg yn dweud ei fod yn iawn, byddwch yn cael eich atal.




Os ydych yn gadael yr ysbyty cyn bod y meddyg yn dweud ei fod yn iawn, bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl.



Os ydych eisiau gadael yr ysbyty am gyfnod byr, siaradwch â'ch meddyg.

Y nhw sy'n penderfynu os yw'n ddiogel.




Mae gennych **HAWL** i eiriolwr annibynnol iechyd meddwl a elwir weithiau'n IMHA.

- Gallant eich helpu chi i ddeall eich hawliau a siarad ar eich rhan
- Gallant eich helpu i wneud cwyn
- Nid ydynt yn gweithio i'r ysbyty ac mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac am ddim

Os hoffech eiriolwr. Siaradwch â'r staff, a all roi mwy o wybodaeth i chi.

Beth sy'n digwydd nesaf?




Byddwch yn cael eich asesu gan feddyg arall.

Y meddyg fydd yn penderfynu os oes angen i chi aros yn yr ysbyty.



Os oes angen i chi aros, efallai bydd eich 'cadw'n' cael ei newid.

Byddwch yn cael taflen wybodaeth arall os bydd hyn yn digwydd.



Os nad yw ail feddyg yn eich asesu cyn diwedd y 3 diwrnod gallwch aros neu adael yr ysbyty.



Ni allwch apelio yn erbyn cael eich cadw o dan adran 5.2 y Ddeddf Iechyd Meddwl